**Rhun ap Iorwerth**
Aelod o'r Senedd dros Ynys Môn
Arweinydd Plaid Cymru
—
Member of the Senedd for Ynys Môn
Leader of Plaid Cymru

**Senedd Cymru / Welsh Parliament**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Rhun.apiorwerth@senedd.cymru
senedd.cymru/Rhunapiorwerth
www.rhunapiorwerth.cymru
—
**1b Stryd yr Eglwys, Llangefni**
Ynys Môn LL77 7DU

01248 723599
@rhunapiorwerth
@rhunapiorwerth
/rhunynysmon

Delyth Jewell
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
(ar e-bost)

25 Hydref 2023

Annwyl Gadeirydd,

Ysgrifennaf yn dilyn cyfarfod o'ch pwyllgor yr wythnos diwethaf pan gawsoch dystiolaeth gan Weinidog y Cyfryngau a Data Llywodraeth y DU, Syr John Whittingdale AS fel rhan o'ch gwaith ar wasanaeth darlledu cyhoeddus yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, yn ystod trafodaeth ar ddarlledu digwyddiadau chwaraeon mawr ar deledu rhad ac am ddim, manteisiodd fy nghyd-Aelod Llyr Gruffydd AS ar y cyfle i ofyn i'r Gweinidog a oedd wedi edrych ar "bwysigrwydd cymharol rygbi i ni yma yng Nghymru, a sut y gellid adlewyrchu hynny'n well mewn hawliau darlledu."

Roedd hon yn drafodaeth amserol oherwydd pryderon cynyddol y bydd mwy o gemau rygbi yn cael eu dangos y tu ôl i waliau talu, fel yn achos yr hawliau i Gemau Rhyngwladol yr Hydref sy'n cael eu prynu gan Amazon.

Cefais fy nghalonogi gan sylwadau John Whittingdale pan ddywedodd pe bai'r Senedd yn dadlau'n gryf iawn y dylid edrych eto ar y mater o ddigwyddiadau rhestredig, yna byddai Llywodraeth y DU yn gwneud hynny.

Yn yr ysbryd hwnnw, rwyf wedi ysgrifennu at Arweinwyr y Grwpiau eraill yn y Senedd, yn eu gwahodd i arwyddo apêl drawsbleidiol, gan gyflwyno sylwadau i'r perwyl hwn i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn San Steffan. Amgaeaf gopi o'r llythyr er gwybodaeth.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol hefyd yn neilltuo amser i drafod y mater hwn ac archwilio'r holl opsiynau posib ar gyfer sicrhau bod y Senedd yn gwneud y datganiad cryfaf posibl o blaid sicrhau bod pob gem rygbi fawr ar gael yn rhad ac am ddim i bawb.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yr gywir,

Rhun ap Iorwerth
Aelod o'r Senedd - Ynys Môn – Member of the Senedd

Senedd Cymru
Welsh Parliament